# Rhannu Dysgu Gwella: Tyfu Gyda'n Gilydd

## Canllaw Arfer Da

© Our Bright Future 2020

# Cynnwys


Beth yw Our Bright Future? 3


Rhannu Dysgu Gwella (RhDG) 4

Beth yw'r Manteision? 8

Cyngor Doeth ar gyfer RhDG 14














# Beth yw Our Bright Future?

Mae Our Bright Future yn bartneriaeth uchelgeisiol ac arloesol dan arweiniad yr Ymddiriedolaethau Natur sy'n dod â'r sectorau ieuenctid ac amgylcheddol at ei gilydd. Mae'r rhaglen gwerth £33 miliwn yma sy'n cael ei chyllido gan Gronfa Gymunedol y Loteri Genedlaethol yn cynnwys 31 o brosiectau ledled y DU sy'n gweithredu am hyd at bum mlynedd. Mae pob prosiect yn grymuso pobl ifanc 11 i 24 oed â sgiliau a phrofiad hanfodol ac yn gwella eu lles. Ar yr un pryd, mae'r bobl ifanc hynny'n gweithredu fel catalydd ar gyfer cyflawni newid yn eu hamgylchedd a'u cymuned leol, gan gyfrannu hefyd at economi wyrddach.

Cafodd y canfyddiadau sydd yn y ddogfen hon eu cynnwys yn yr adroddiad gwerthuso canol tymor a gyhoeddwyd ym mis Gorffennaf 2019. Pwrpas yr adroddiad canol tymor oedd nodi'r hyn a gyflawnwyd ers dechrau'r rhaglen a nodi gwersi allweddol i ysgogi gwell perfformiad. Bwriad yr adroddiad oedd hyrwyddo dysgu a chefnogi'r gwaith o gyflwyno'r rhaglen yn y dyfodol, yn ogystal â galluogi'r rhaglen i rannu canfyddiadau ag eraill. Y gobaith yw y gall y sylfaen dystiolaeth gyfunol fod yn sail i raglenni tebyg yn y dyfodol a darparu tystiolaeth o sut gall pobl ifanc wella eu hamgylchedd lleol, y gellir ei defnyddio fel sail i bolisi ac arferion ehangach.

Mae copi o'r adroddiad gwerthuso canol tymor ar gael ar wefan Our Bright Future: ourbrightfuture.co.uk/about/our-impact/



# Rhannu Dysgu Gwella (RhDG)

Mae RhDG yn un o swyddogaethau rhaglen Our Bright Future. Ei nod yw **hwyluso rhannu gwybodaeth a dysgu er mwyn datblygu arfer gorau, ychwanegu gwerth at gyflwyno rhaglenni** a **chryfhau effeithiau a chanlyniadau**. Mae RhDG yn elfen greiddiol o'r rhaglen ac yn sicrhau y gall y 31 o brosiectau rannu arfer gorau a dysgu drwy broses sy'n esblygu'n barhaus gan ddefnyddio mewnbwn gan brosiectau unigol, canfyddiadau gwerthuso, sganio'r gorwel ac adnabod tueddiadau ar draws y rhaglen gyfan.

Er mwyn cyflawni strategaeth RhDG effeithiol, cyflogwyd cydlynydd llawn amser o ddechrau'r rhaglen. **Roedd cael aelod penodol o staff ar gyfer yr elfen hon o'r rhaglen yn amhrisiadwy**. Ar ddechrau'r rhaglen, roedd angen amser i fireinio'r strategaeth a'r model cyflawni RhDG, meithrin perthnasoedd ac ymddiriedaeth a ffurfio cysylltiadau. Yn dilyn proses asesu anghenion barhaus, roedd y Cydlynydd RhDG yn gallu cyflwyno cysylltiadau prosiect i'w gilydd lle'r oedd diddordeb neu gyfle dysgu cyffredin. Roedd hyn yn galluogi'r prosiectau i gydweithio, rhannu dulliau gweithredu a darparu cyfleoedd dysgu gwerthfawr drwy ymweliadau cyfnewid gyda phobl ifanc a staff.

**Mae RhDG yn broses gynhwysol a chydweithredol** i sicrhau bod prosiectau'n teimlo'n rhan o'r rhaglen ehangach ac yn hyderus bod eu hanghenion a'u materion yn cael eu cofnodi ac yn cael sylw. Cydlynir mewnbwn y prosiectau drwy arolygon a holiaduron, adroddiadau chwarterol a diwedd blwyddyn, cymuned ar-lein y prosiectau a thrwy drafodaeth gyda'r cydlynydd RhDG.

Bu **proses effeithiol a pharhaus o ymgynghori, adlewyrchu a gweithredu** i ymateb i anghenion y portffolio ac i roi sylw i faterion. Mae'r adroddiadau chwarterol gan y prosiectau'n sicrhau bod adolygiad rheolaidd o'r ddarpariaeth RhDG ac adborth am ddigwyddiadau ac adnoddau yn cael eu casglu a'u defnyddio i wella'r ddarpariaeth.



© Our Bright Future


OUR BRIGHT FUTURE
Regional and thematic workshops (spring & autumn)
Good practice guides and lessons learnt
Annual seminar (residential for all projects)
Online community
Webinars
Project Support Network
Project exchange visits
Informal shared learning between projects

## Seminar deuddydd flynyddol ar gyfer y prosiectau i gyd

Yn ddelfrydol, mae'n agored i o leiaf ddau aelod o staff a chynrychiolwyr yr ieuenctid o bob prosiect ac mae'n cael ei chynnal mewn gwahanol ranbarthau/ gwledydd bob blwyddyn. Cymysgedd o wybodaeth a diweddariadau am y rhaglen, siaradwyr o'r prosiectau, siaradwyr allanol a phrif siaradwyr a sesiynau grŵp. Mae'r amser rhwydweithio ychwanegol y mae digwyddiad preswyl yn ei greu yn helpu i gryfhau'r berthynas rhwng staff y prosiectau ac roedd tueddiad i weld cynnydd yn y gwaith traws-brosiect a gofnodwyd yn ystod y misoedd yn dilyn y digwyddiadau hyn.

## Gweithdai rhanbarthol a thematig

Ar agor i staff a chynrychiolwyr ieuenctid, cynhelir y gweithdai ddwywaith y flwyddyn gyda thri neu bedwar gweithdy ym mhob rownd wedi'u gwasgaru ledled y DU. Mae'r rhain yn ymwneud yn bennaf â rhannu prosiectau a dysgu a dewisir y pynciau'n seiliedig ar adborth prosiectau a cheisiadau sy'n cael eu casglu drwy'r ffurflenni adrodd yn ôl. Weithiau mae'r gweithdai'n cynnwys elfen thematig sy'n dibynnu ar anghenion y rhaglen a'r prosiectau ar y pryd

## Gweminarau

Mae'r rhain wedi'u trefnu ar sail ad hoc. Nodir pynciau gan ddefnyddio adborth ac argymhellion o ganfyddiadau gwerthuso, adroddiadau prosiectau a thrafodaethau prosiectau.

## Canllawiau arfer da a'r gwersi a ddysgwyd

Cynhyrchir y rhain gan ddefnyddio gwersi o werthusiad y rhaglen a'r gwersi a ddysgwyd o adroddiadau'r prosiectau.

## Rhwydwaith Cefnogi Prosiectau

Mae'r Rhwydwaith Cefnogi Prosiectau'n darparu cefnogaeth, cyngor ac arweiniad ar feysydd o angen fel y nodwyd gan brosiect sy'n chwilio am gefnogaeth.


© Our Bright Future

## Cymuned ar-lein

Cymuned ar-lein Our Bright Future (sy'n cael ei hadnabod fel yr Ystafell Werdd) yw'r prif adnodd cyfathrebu ar gyfer cyfathrebu ar draws prosiectau a ledled y rhaglen gyfan. Defnyddir yr Ystafell Werdd i hwyluso rhannu gwybodaeth a dysgu ac i hyrwyddo'r ymdeimlad o berthyn i fudiad ar y cyd yn hytrach na phrosiect unigol. Mae'n cynnwys y meysydd canlynol:

- proffiliau/bywgraffiadau aelodau sy'n cynnwys enw, rôl, manylion cyswllt, sefydliad ac enw'r prosiect
- ardal diweddariadau sy'n cynnwys newyddion cyfredol, diweddariadau prosiectau a'r rhaglen
- ardal Rhwydwaith Cefnogi Prosiectau sy'n cynnwys bywgraffiadau a phroffiliau sgiliau aelodau'r rhwydwaith
- calendr digwyddiadau rhyngweithiol
- ardal sgwrsio lle gall prosiectau gynnal trafodaethau defnyddiol
- cronfa wybodaeth sy'n cynnwys dogfennau defnyddiol, dolenni gwe, clipiau fideo a chronfa sgiliau'r prosiectau
- tudalen diweddariadau'r Fforwm Ieuenctid gan gynnwys straeon newyddion da, dogfennau defnyddiol a'r diweddariadau sy'n galluogi i'r holl staff weld yr wybodaeth sy'n cael ei throsglwyddo i'r aelodau.

## Dysgu a rennir anffurfiol rhwng prosiectau

Mae Rhannu Dysgu Gwella yn annog prosiectau i rannu syniadau a gofyn am farn a help gan ei gilydd. Anogir y prosiectau i ofyn cwestiynau i'w gilydd a rhannu templedi a syniadau. Mae'r elfen hon yn debyg i'r Rhwydwaith Cefnogi Prosiectau ond mae'n fwy anffurfiol; gall fod yn rhyngweithio untro neu'n ddeialog barhaus rhwng dau brosiect sy'n gefnogol i'w gilydd yn hytrach nag un darn o waith unigol. Yn gyffredinol, mae'r dysgu anffurfiol hwn yn digwydd drwy alwadau ffôn neu e-bost.

## Ymweliadau cyfnewid prosiectau

Anogir y prosiectau i gynllunio a chynnal ymweliadau cyfnewid â'i gilydd. Mae'r rhain wedi'u cynnal mewn amrywiaeth o ffyrdd; rhai ar ffurf ymarferion hyfforddi a datblygu staff ac eraill fel cyfle i bobl ifanc ddatblygu sgiliau newydd, ennill profiad neu ymweld ag ardal gwbl wahanol i'r lle maen nhw'n byw ynddo. Mae gan y swyddogaeth Rhannu Dysgu Gwella gronfa deithio ganolog y gall prosiectau wneud cais iddi am gefnogaeth gyda chostau teithio a llety ymweliadau cyfnewid, gan oresgyn rhwystr allweddol a hwyluso mwy o ryngweithio ar draws y rhaglen.

# Beth yw'r manteision?

Canlyniadau allweddol y dull partneriaeth o weithredu yw **dysgu, cyfnewid gwybodaeth** a **datblygu perthnasoedd** rhwng sefydliadau. Mae cyllid a chyfleoedd dysgu Our Bright Future wedi **datblygu sgiliau, profiad a gwybodaeth ymarferwyr ar y cyd** o ran sut i hwyluso a chefnogi gweithgareddau amgylcheddol gyda phobl ifanc. Mae gweithdai wyneb yn wyneb RhDG a seminarau blynyddol y rhaglen wedi cael eu gwerthfawrogi'n arbennig o ran dysgu a meithrin perthnasoedd ymhlith sefydliadau portffolio ac ehangu dulliau arfer gorau ar draws y rhaglen. **Y teimlad yw bod y newidiadau a gofnodwyd gan sefydliadau yn y sectorau amgylcheddol ac ieuenctid wedi digwydd yn llawer cyflymach nag y byddent heb y rhaglen.**

## Esiamplau


© Jane Warman

**Mae llwyddiant My World My Home wedi cael ei gydnabod yng Nghyfeillion y Ddaear i'r graddau bod tîm Ieuenctid a Theuluoedd newydd wedi cael ei greu i adeiladu ar ei lwyddiant. Yn ogystal, cymeradwyodd bwrdd Cyfeillion y Ddaear benodiad aelod ifanc o'r bwrdd ieuenctid yn unfrydol yn hydref 2018.**

**Erbyn mis Ionawr 2020, o'r 31 o sefydliadau prosiect arweiniol, roedd 10 wedi newid eu strwythur llywodraethu neu eu harferion gwaith o ganlyniad i'r rhaglen. Roedd pump o'r rhain yn cynnwys recriwtio ymddiriedolwyr ifanc. Yn ogystal, mae tri sefydliad wedi ffurfio fforymau neu gynghorau ieuenctid ac mae pobl ifanc bellach yn aelodau o bob grŵp trawsbynciol yn Ymddiriedolaeth Natur Sir Efrog, o iechyd a diogelwch i Adnoddau Dynol.**


© Jane Warman

Dechreuodd Undeb Cenedlaethol y Myfyrwyr (NUS) gymryd rhan mewn ymgyrchu amgylcheddol a daeth ffocws yr Ymddiriedolaethau Natur yn fwy ar ieuenctid.


© Our Bright Future

Mae'r Asiantaeth Ieuenctid Genedlaethol, oedd heb weithio ar brosiect sy'n canolbwyntio ar yr amgylchedd cyn Our Bright Future, yn ymgorffori elfennau amgylcheddol mewn rhaglenni a strategaethau yn y dyfodol.



Dywedwyd bod y rhaglen yn ddylanwadol wrth i rai o aelodau'r consortiwm sicrhau rôl gyflawni gyda'r prosiect Ysgolion Cyfeillgar i Natur (NFS), un o dri phrosiect yn y Rhaglen Plant a Natur (un o brif gynlluniau'r Cynllun 25 Mlynedd). Ers hynny, mae partneriaid wedi helpu'r NFS i ffurfio ei ddarpariaeth, y prosesau ar gyfer rhannu dysgu, porthol dysgu ar-lein a chyfeiriwyd yn gyson at Our Bright Future mewn cyfarfodydd sefydlu.

Nid oes amheuaeth, oherwydd yr ystod eang o brofiad a gwybodaeth a gynrychiolir yn y portffolio [RhDG], ei fod yn cael ei weld gan reolwyr prosiectau fel adnodd a chyfle dysgu gwerthfawr. Ceir llawer o enghreifftiau o ganlyniadau sy'n deillio o ryngweithio rhwng prosiectau. Mae'r rhain yn cynnwys rhannu a gwella dogfennau polisi mewnol (e.e. yn ymwneud ag iechyd a diogelwch a diogelu) a rhannu arfer gorau, gan gynnwys dulliau o gynyddu hygyrchedd, yn enwedig i bobl ifanc o grwpiau a dangynrychiolir neu ag anghenion ychwanegol.

## Esiamplau

**Rhannodd Ymddiriedolaeth Natur Sir Wilt, Ymddiriedolaeth Natur Gogledd Cymru a vInspired awgrymiadau a chyngor ar Yr Ystafell Werdd am y ffordd orau o ymgysylltu â chynulleidfaoedd ar gyfryngau cymdeithasol.**

**Rhannodd Ymddiriedolaeth Natur Gogledd Cymru a Hill Holt Wood brofiadau o sut orau i ymgysylltu â chynulleidfaoedd mwy anodd eu cyrraedd ar yr Ystafell Werdd.**

**Gwnaeth Hill Holt Wood ac NYA gais ar y cyd am arian grant (Cronfa Dream – Loteri Cod Post). Er nad oeddent yn llwyddiannus, roedd hyn yn ddechrau ar weithio pellach ar y cyd, gan gynnwys person ifanc o Hill Holt Wood yn gwneud cais i'r rhaglen The Environment Now ac yn llwyddo i roi cychwyn i'w phrosiect 'Operation Sawdust'.**

*"Rydyn ni'n bendant wedi elwa o arbenigedd prosiectau eraill, ac yn enwedig y rhai sydd â mwy o brofiad o weithio gyda phobl ifanc anoddach eu cyrraedd neu'r rhai sy'n llai tebygol o fod eisiau bod yn rhan o brosiectau fel ein rhai ni".*

**Rheolwr Prosiect**

Hefyd, nododd sawl rheolwr prosiect bod **cynnydd mewn ffyrdd newydd o weithio wedi bod yn gyflymach o gymharu â phrosiectau'n rhoi cynnig ar ffyrdd newydd o weithio ar wahân**, gyda phrosiectau wedi'u hysbrydoli ac wedi cael hyder i roi cynnig ar bethau newydd, na fyddent wedi eu rhoi ar waith fel arall, neu heb wybod amdanynt. Er enghraifft, mae hyn wedi cynnwys prosiectau sy'n gweithio gyda chynulleidfaoedd targed newydd, cyflwyno gweithgareddau mewn ffordd wahanol, neu roi cynnig ar ddulliau neu systemau newydd fel darparu cymwysterau achrededig.

Ceir enghreifftiau o brosiectau'n cefnogi ei gilydd drwy **ddarparu ar y cyd, croesgyfeirio** rhwng partneriaid, a **darparu hyfforddiant** i brosiectau eraill yn y portffolio. Mae'r rhain wedi digwydd o ganlyniad i ddigwyddiadau RhDG ac ymweliadau prosiect i brosiect, a oedd yn werthfawr i reolwyr prosiect am ddau reswm craidd: creu teimlad cadarnhaol o fod yn rhan o fudiad mwy; a rhannu syniadau a dysgu.

## Esiamplau

Cefnogodd un o aelodau Fforwm Ieuenctid Growing Up Green (GUG) Hill Holt Wood berson ifanc arall o Tomorrow's Natural Leaders (TNL) pan aeth ar ymweliad am ddiwrnod o ymgynghori. Cydweithiodd y ddau berson ifanc ar gynllun cysgod beiciau to gwyrdd ac mae'r cyfranogwr gyda TNL wedi derbyn cyllid ar gyfer y cynllun hwnnw, ac mae hefyd wedi derbyn cyngor ar ddatblygu ei gysyniadau dylunio ac ymarfer ar feddalwedd sydd ar gael yn Hill Holt Wood.

Mae Rheolwr Rhaglen prosiect Green Futures YDMT wedi bod yn cefnogi un o aelodau Tomorrow's Natural Leaders Ymddiriedolaeth Natur Sir Efrog gyda'i phrosiect ar ôl cyfarfod yn y digwyddiad Fforwm Ieuenctid. Cafodd gefnogaeth i wneud cais am gyllid pellach drwy Bartneriaeth Natur Leol Gogledd Sir Efrog a Chaerefrog a bu'n llwyddiannus. Fel rhan o'r cais llwyddiannus, mae YDMT hefyd yn hwyluso ffilmio grŵp o bobl ifanc ar daith, i'w defnyddio ar wefan y cyfranogwr.

Gwahoddwyd Groundwork Llundain gan aelod o dîm Cynaliadwyedd NUS i siarad mewn cyfarfod o'r Gyngres Swyddi Gwyrddach. Defnyddiwyd y sgwrs hon i edrych ar gyfleoedd a rhannu gwybodaeth ac arfer da.

Dywed rheolwyr y prosiectau bod cyllid Our Bright Future wedi bod yn allweddol wrth gefnogi sefydliadau darparu i **uwchsgilio staff.** Mae datblygu sgiliau wedi adlewyrchu canlyniadau'r rhaglen ac wedi **dod â'r sectorau gwaith ieuenctid ac amgylcheddol at ei gilydd**. Ar lefel rhaglen, mae RhDG wedi galluogi sefydliadau i ddatblygu sgiliau arbenigol sy'n gysylltiedig â gwaith ieuenctid (e.e. rheoli ymddygiad heb wrthdaro). Mae rhai sefydliadau'n gweithio yn y maes hwn am y tro cyntaf ac mae'r arbenigedd hwn, yn ei dro, yn dylanwadu ar bolisi ac arfer sefydliadol sy'n ymwneud â phobl ifanc.



## Esiamplau o Weithdai / Hyfforddiant RhDG

- Gweithdy diogelu — cyflwynir gan arbenigwr diogelu
- Gweithdy gwerthuso arfer da — cyflwynir gan werthuswyr y rhaglen
- Gweminar rheoli ymddygiad heriol — cyflwynir gan arbenigwr allanol
- Gweminar ecotherapi — cyflwynir gan staff o un o'r 31 o brosiectau sy'n darparu ecotherapi fel rhan o'u gwaith




*"Rydyn ni'n cael y dysgu o'r rhwydwaith. Pan nad yw pethau'n mynd fel rydych chi'n disgwyl, cewch wybod am brofiad prosiectau eraill a'u bod nhw'n wynebu heriau tebyg."*

**Rheolwr Prosiect**

*"'Fydden ni ddim wedi gallu dysgu amdano mor gyflym. 'Fydden ni ddim wedi addasu [y prosiect] yn yr un ffordd, gyda ffocws amgylcheddol o'r fath neu mor gyflym. Mae ein dealltwriaeth ni o'r economi werdd a chyfleoedd cyflogaeth wedi newid. Rydyn ni wedi trosglwyddo hyn i'n pobl ifanc."*

**Rheolwr Prosiect**

Mae tystiolaeth hefyd o bartneriaethau gwaith ffurfiol yn datblygu o ganlyniad i gyflwyniadau drwy Our Bright Future... Teimlai'r rhai a rannodd enghreifftiau na fyddai'r cyfleoedd cydweithio hyn wedi bodoli heb y rhaglen.

- Un enghraifft a nodwyd gan dîm y rhaglen oedd yr NUS yn datblygu perthynas newydd gyda Chyfeillion y Ddaear, gyda'r ddau sefydliad yn lansio ymgyrchoedd cenedlaethol ar leihau defnydd o blastig. Er bod ganddynt hanes o weithio mewn gwahanol sectorau ac ar wahanol agendâu, roedd cydnabyddiaeth y gallai'r ffocws cyffredin hwn gynyddu momentwm yr ymgyrchoedd perthnasol. Ers hynny, mae'r ddau sefydliad wedi dechrau gweithio ar y cyd ar nifer o fentrau gan gynnwys cyflwyno brîff i Fagloriaeth Cymru gynnwys elfennau o'r prosiectau yn adran her gymunedol yr achrediad. Mae'r NUS yn canolbwyntio ymhellach ar weithio'n agosach gyda'r Ymddiriedolaethau Natur ar eu hymgyrch Dyfodol Gwyllt. Hefyd mae tri phrosiect sydd wedi'u lleoli'n agos at ei gilydd wedi datblygu perthynas barhaus, gydag ymweliadau mynych gan bobl ifanc a chefnogaeth gyfatebol mewn gweithgareddau a digwyddiadau.
- *"Mae wir wedi galluogi i sefydliadau weithio gyda'i gilydd, sefydliadau na fyddai wedi bod yn agos at ei gilydd fel arall. Mae wedi bod yn anhygoel yn y ffordd honno, gyda'r Ymddiriedolaeth Genedlaethol, yr Ymddiriedolaethau Natur a Chyfeillion y Ddaear mewn un ystafell, ac ni allwch wneud hynny'n aml iawn. Mae cydweithio digymell yn digwydd, a llawer o alw am gydweithredu na fyddai wedi digwydd heb y rhaglen yn bendant."*

**Cyfweliad gyda thîm y rhaglen, 2018**


© Our Bright Future


© National Youth Agency

# Cyngor Doeth ar gyfer RhDG

Mae'n hanfodol ymgorffori fframwaith RhDG mewn rhaglen o'r dechrau un, gyda chyflwyniad llawn wedi'i gynnwys yn y rhaglen i bob rheolwr prosiect ei fynychu.

Bod â mecanweithiau dysgu a dolenni adborth yn eu lle i fanteisio i'r eithaf ar ddysgu gwersi a chyfathrebu ar draws y rhaglen.

Cynnwys digon o adnoddau i gyflwyno digwyddiadau wyneb yn wyneb ac i dalu costau siaradwyr a hyfforddwyr allanol.

Rhaid i RhDG fod yn hyblyg a gallu addasu, a bod ag agwedd esblygol i ymateb i anghenion yn newid ar draws y rhaglen.

Cynnwys cefnogaeth ychwanegol fel cronfeydd cyllido canolog y gall prosiectau wneud cais iddynt er mwyn goresgyn rhwystrau i ymgysylltu o bersbectif ariannol.

Rhaid i RhDG fod â dull cynhwysol a chyfranogol o weithredu gyda chefnogaeth gan holl swyddogaethau'r rhaglen.

## Rhannu Dysgu Gwella — Fframewaith ar gyfer Arfer Da

**Argymhellir cyflwyno fframwaith ar gyfer dysgu a darparu ar draws y rhaglen os bydd rhaglen aml-sefydliad yn dechrau o fewn cyfnod cyllido tymor penodol.**

Gallai fframwaith ar gyfer dysgu a chyflwyno ar draws y rhaglen ychwanegu gwerth at fywyd y rhaglen, gan sbarduno rhwydweithiau a dysgu a rennir yn gyflymach na heb fecanwaith o'r fath, gan sicrhau effaith orau i amcanion y rhaglen.

Mae wyth elfen allweddol ar gyfer strategaeth Rhannu Dysgu Gwella lwyddiannus:




1 **Ymgorfforí'r ethos ar draws pob partner** o ddechrau un y rhaglen. Dylid cynnwys RhDG yn amser y staff ar gyfer pob prosiect ac yn y prosesau cyflwyno; i godi ymwybyddiaeth o'r swyddogaeth a sicrhau bod amser yn cael ei warchod i staff fynychu gweithgareddau RhDG. Os yw'n bosibl, dylai'r rhannu gael ei arwain gan y partneriaid eu hunain, gan adnabod y gwersi allweddol maent eisiau eu rhannu.

2 **Cymuned ar-lein sy'n agored i'r holl staff.** TGallai hon fod yn wefan syml y byddai staff yn ei defnyddio drwy greu dull mewngofnodi personol a byddai'n blatfform i rannu adnoddau, sefydlu a chymryd rhan mewn trafodaethau a phoblogi cynnwys. Byddai'r defnydd o hyn yn cael ei gynnwys yn y broses gyflwyno gan annog yr holl staff i'w ddefnyddio.

**3** **Cyfleoedd dysgu wyneb yn wyneb.** Gan ragdybio bod partneriaid y rhaglen ledled y DU, dylid cynnal y gweithgareddau hyn ar adegau penodol drwy gydol y flwyddyn galendr a gallant gynnwys gweithdai, seminarau blynyddol a rhwydweithio rhanbarthol. Mae'r cyfleoedd yn fwyaf buddiol pan maent yn cylchdroi o amgylch lleoliadau yn y DU, gan osgoi bod â'u ffocws ar Lundain neu Loegr a chael eu cynnal gan sefydliadau partner os yw hynny'n bosibl.

**4** **Mae'r strategaeth yn parhau i fod yn hyblyg ac yn adweithiol i anghenion y rhaglen.** Dylid adolygu hyn yn flynyddol, er mwyn esblygu'r ddarpariaeth yn barhaus. Dylai strategaeth RhDG gynnwys sganio'r gorwel ac adnabod tueddiadau ar draws y sefydliadau partner, ymateb i adborth a mewnbwn gan staff ac ystyried y cyd-destun allanol. Dylai hefyd gynnwys gwaddol a strategaeth gadael i sicrhau nad oes asedau dysgu'n cael eu colli.

**5** **Rôl gydlynu ganolog**, er mwyn sicrhau bod gweithgarwch yn cael ei ddatblygu, hwyluso digwyddiadau, gweinyddu'r gymuned ar-lein ac ymateb i anghenion partneriaid y rhaglen. Mae gan y cydlynydd drosolwg unigryw o'r rhaglen ac felly gall gysylltu partneriaid neu ddatrys problemau lle mae'r angen yn codi.

**6** **RhDG yn gysylltiedig â swyddogaethau eraill y rhaglen.** Dylai RhDG weithio'n agos gydag unrhyw swyddogaethau eraill y rhaglen sydd yn eu lle (fel gwerthuso) i sicrhau effaith orau'r strategaeth a helpu i lywio ei chyfeiriad.

**7** **Rhwydwaith cefnogi mewnol ar gael.** Byddai sefydliadau partner yn cael eu gwahodd i'w cyflwyno eu hunain i ddarparu cefnogaeth arbenigol i bartneriaid eraill, yn seiliedig ar eu meysydd sgiliau. Byddai hon yn gefnogaeth sy'n talu ffi a byddai partneriaid yn cael eu cysylltu yn dibynnu ar y cais, a gallai gynnwys unrhyw beth o ymchwil desg i adolygu dogfennau, ymweliadau safle ac ati. Mae'r rhwydwaith hwn yn helpu i sicrhau'r budd gorau posib o'r cyfoeth o sgiliau ac arbenigedd ar draws y rhaglen, a chynyddu trawsweithio.

**8** **Pecyn gweithgareddau ar gael.** Byddai hwn yn nodi calendr o ddigwyddiadau (fel y soniwyd uchod) a blaenoriaethau blynyddol i'w rhannu â phartneriaid a phenderfynir ar y themâu wrth i'r rhaglen fynd rhagddi.